Mwynhau dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.

Ysgol Carreg Emlyn

Clocaenog, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2AY

Tel: Clocaenog 01824 750636

ysgol.carreg.emlyn@sirddinbych.gov.uk

www.ysgolcarregemlyn.cymru

@carregemlyn

Newyddion 3/10/22 News

Dyddiadau i'w Cofio
Dates fo your Diary.

3/10 -7/10/22.Wythnos Beicio i'r Ysgol / *Cycle to School Week*
5, 12, 19, 26/10/22 - Clwb Chwaraeon Bl 3-6 / *Yr 3-6 Sports Club*
11/10/22 – Brechlyn Ffliw / *Flu Vaccine*
17/10/22 – Gwasanaeth Diolchgarwch / *Harvest Service - pm*
18/10/22 Twrnament Pel Rwyd Merched yr Urdd *Girls Netball Tournament* Ysgol Glan Clwyd
20 a 21/10/22 – Cwrs Beicio Bl 6 / *Yr 6 Bikeability Course.*
21/10/22 Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth – pawb i wisgo dillad coch / *Show Racism the Red Card – everyone to wear red clothes.*
24/10/22 Gweithdy Dawns *Divali Dance Workshop*
27/10/22 Traws Gwlad Dyffryn Clwyd / Vale of Clwyd Cross Country – am.
28/10/22 - Cau dros Hanner Tymor / *Close for Half Term Close*
7/11/22 Plant yn ôl yn yr ysgol/ *Children return to school*
8/11/22 Lluniau Ysgol – unigolion a theuluoedd. *School Photos – individual and families.*
18/11/22 Diwrnod Plant Mewn Angen / *Children in Need Day*
21/11/22 Bl 1 a 2 – Jambori Ysgol Brynhyfryd – *Yr 1 & 2 – pm*
23/11/22 Bl 1-6 Sioe Nadolig – Theatr y Pafiliwn Y Rhyl – *Welsh Christmas Show Yr 1-6.*
23/12/22 Ysgol yn cau dros y Nadolig / *School closed for Christmas*
9/1/23 Diwrnod Hyfforddiant Staff / *Staff Training Days*
10/1/23 Plant yn ôl yn yr ysgol/ *Children return to school*

Bwydlen Cinio Ysgol/ School Lunch Menu
Primary Menus - Denbighshire School Meals
Wythnos 2 / Week 2

Talu am Ffrwyth/ *Fruit Money*

Cofiwch fod angen talu am ffrwyth am yr hanner tymor. Mae cost o £1 yr wythnos am ffrwyth boreuol. Felly bydd angen talu £8 am ffrwyth bore am yr hanner tymor yma. A wnewch chi dalu ar ParentPay cyn gynted a phosib os gwelwch yn dda. *A reminder that you will need to pay for fruit for the half term. The cost for fruit is £1 per week. Please remember to pay £8 for the fruit for this half term. Could you please pay this on ParentPay as soon as possible.*

Wythnos Beicio i'r Ysgol
Cycle to School Week
Wythnos Beicio i'r Ysgol

Cofiwch fod hi'n Wythnos Beicio i'r Ysgol yr wythnos yma a gofynnwn i chi ystyried beicio neu sgwtera i'r ysgol, os ydy'n ddiogel ac ymarferol i wneud hynny. Gobeithio bydd y tywydd yn braf! *It is Bike to School Week this week and we ask you to think about cycling or scooting to school if it is safe and practical to do so Hopefully the weather will be fine!*

Diolchgarwch / Harvest Service

Eleni byddwn yn cael Gwasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys Clocaenog pnawn Llun Hydref 17. Oherwydd fod yr eglwys yn fach ni fydd lle i rieni ymuno a ni. Bydd Andras Iago yn dod i siarad gyda'r plant am 'Baby Basics Dyffryn Clwyd' sef elusen lleol sy'n casglu nwyddau i fabis er mwyn helpu teuluoedd mewn angen. Byddwn yn casglu nwyddau tuag at yr elusen yn yr wythnosau nesaf. Os hoffech gyfranu cofiwch yrru nwyddau i'r ysgol erbyn Hydref 17. Mae'r elusen yn derbyn dillad babis ail law mewn cyflwr da yn ogystal a dillad newydd. Hefyd mae nhw angen cewynnau, nwyddau ymolchi ac ati – unrhyw beth fyddai angen ar babi. Bydd Anti Jill y paratoi Cinio Diolchgarwch i ni ar y diwrnod yma hefyd. Y cinio fydd Casarol Cyw Iar a Llysiau, bara ffresh a bisged afal a cheirch. *We will be having a Harvest Service at Clocaenog Church on Monday October 17th. As the church is very small there will be no room for parents to join us. Andras Iago will be coming to talk to the children about a charity called 'Baby Basics – Vale of Clwyd' which is a charity that collect baby goods for families in need. We will be collecting goods for this charity in the next few weeks. If you would like to contribute please send in goods by October 17th. The charity are looking for baby clothes – new or used and in good condition. Also, they would like toiletries, nappies or anything else a young baby would need. Aunty Jill will be preparing a Harvest Lunch for us on the Monday. The lunch will be Chicken and vegetable casserole with fresh bread and Oatie Apple Biscuits.*



Cyfeillion yr Ysgol
Friends of the School

Diolch i'r canlynol sydd wedi cytuno i fod ar bwyllgor Cyfeillion yr Ysgol eleni. *Thank you to the following who have agreed to be on the Friends of the School committee this year.*

Cadeirydd/ Chair – Ceri Phillipson
Ysgrifennydd/Secretary – Ffion Jones
Cynrychiolwyr Dosbarth / Class Representatives
Meithrin a Derbyn – Lowri Thornley (mam Brodie)
Blwyddyn 1 a 2 – Elin Griffiths (mam Dion)
Blwyddyn 3 a 4 – Lois Roberts (mam Hari Bryn)
Blwyddyn 5 a 6 – Cathryn (mam Ifan)

Ymweliadau Dros Nos /
Overnight Visits

Rydym wrthi'n trefnu ymweliadau dros nos i blant Bl 3 a 4 & Bl 5 a 6. Bydd Bl 3 a 4 yn mynd i Wersyll yr Urdd Glan Llyn gyda plant Ysgol Bro Cinmeirch ar Ionawr 16-17 2023. Bydd Bl 5 a 6 yn mynd i Wersyll yr Urdd Caerdydd gyda plant Ysgolion Llanfair DC, Bro Cinmeirch, Pentrecelyn, Betws GG a Bro Elwern ar Fehefin 28-30ain 2023. Nid ydym yn sicr o'r prisiau eto. Byddwn yn gofyn am flaendal yn fuan i'w dalu ar ParentPay a bydd modd talu bob yn dipyn. *We are organising overnight trips fod Yr 3&4 and Yr 5&6 pupils. Yr 3&4 will be going to Glan Llyn Urdd Camp with Ysgol Bro Cinmeirch pupils January 16th and 17th 2023. Yr 5 & 6 will be going to Cardiff Urdd Centre with children from Llanfair DC, Bro Cinmeirch, Pentrecelyn, Betws GG a Bro Elwern schools June 28-30th 2023. We are not sure of the prices as yet. We will be asking for deposits soon to be paid on ParentPay and then you will be able to pay a little at a time if you wish.*

Bl 4, 5 a 6 Cogurdd Yr 4, 5 & 6

Byddwn yn cynnal rownd yr ysgol o **COGURDD** yr wythnos cyn hanner tymor. Byddwn yn anfon y wybodaeth gyda'r cylchlythyr heddiw. Mae'r gystadleuaeth yn agored i **aelodau'r Urdd** o Flwyddyn 4, 5 neu 6. Os oes gan eich plentyn ddiddordeb mewn cystadlu a wnewch chi ebostio'r ysgol erbyn **DYDD GWENER Hydref 14.** Unwaith y byddwn yn gwybod faint o blant sydd am gystadlu byddwn yn medru trefnu rownd yr ysgol. Bydd angen i'r plant baratoi ac ymarfer at hwn adref a dod a'u cynhwysion a'u hoffer eu hunain i'r ysgol ar y diwrnod. *We will be holding the school of **COGURDD** (cookery competition) during the week before half term. The information will be sent with the newsletter. The competition is open to **Urdd members** from Yr 4, 5 and 6. If your child is interested in competing please email school by **FRIDAY October 14th.** Once we know how many children want to compete we can then organise a date for the school round. The children will need to prepare and practice for the competition at home and bring in the ingredients and the utensils on the day.*

Mae Pris Clwb Brecwast wedi codi i £1 y dydd y tymor yma.
Breakfast Club price has risen to £1 per day this term

Cystadleuaeth Llaeth y Llan a'r Urdd
Urdd and Village Dairy Competition

Llongyfarchiadau i Eli a Harri George am ennill gwobrau yng nghystadleuaeth dylunio top neu lewys i botiau iogwrt Llaeth y Llan. Roedd y gystadleuaeth ynghlwm ag Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych ym mis Mai felly cawsom syrpreis neis yn derbyn y parseli drwy'r post bedwar mis yn ddiweddarach!. *Congratulations to Eli and Harri George for winning prizes in the competition to Design a new top or sleeve for the Village Dairy yogurt pots. The competition was in partnership with the Denbighshire Urdd Eisteddfod which took plac ein May. It was a lovely surprise to receive the prizes through the post four months later!*